**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 17 Chwefror 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S J Gallagher | P R Hood-Williams | Y V Jardine |
| E T Kirchner | G J Tanner | L V Walton |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gavin Evans | Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

**15 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**16 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021 fel cofnod cywir.

**17 Strategaeth Gofalwyr Ifanc.**

Darparodd Gavin Evans, Prif Swyddog dros Gymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc, nifer o sleidiau PowerPoint mewn perthynas â'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc.

Amlinellodd y sleidiau:

- Trosolwg o ddatblygiad y strategaeth;
- Meysydd sy'n cael eu datblygu yn y strategaeth;
- Nodau/diben y strategaeth:
  Cynyddu ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc;

Cynyddu'r broses o adnabod Gofalwyr Ifanc;
Sicrhau'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir;

- ➢ Canlyniadau a mesurau;
- ➢ Y camau nesaf

Darparodd Egija Cinovska, Cydlynydd Prosiect Gofalwyr Ifanc YMCA Abertawe, wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r cynllun cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc Cenedlaethol.  Esboniodd y gallai'r Gofalwyr Ifanc yn yr ysgol ddefnyddio'r cerdyn, er enghraifft lle'r oedd angen gorffen yn yr ysgol yn gynnar neu fynd i'r ysgol yn hwyr oherwydd cyfrifoldebau gofalu, neu fel arall os nad oeddent wedi gallu cwblhau unrhyw waith cartref.  Yn ogystal, y gobaith oedd y gellid defnyddio'r cerdyn mewn fferyllfeydd fel y gallai gofalwr ifanc gasglu meddyginiaeth ar gyfer ei ddibynnydd, yn ogystal â gallu ei ddefnyddio i gael pris gostyngol ar gludiant cyhoeddus pe bai angen iddynt hebrwng dibynnydd i unrhyw apwyntiad a drefnwyd.  Byddai'r cynllun cerdyn adnabod ar sail cymryd rhan yn wirfoddol.

Dywedodd y Prif Swyddog dros Gymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc wrth y Pwyllgor fod YMCA Abertawe wedi llwyddo i ailgomisiynu'r gwasanaeth Gofalwyr Ifanc am y 3 blynedd nesaf.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau a gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r swyddogion, yr ymatebwyd iddynt yn unol â hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

## 18 Strategaeth Cyd-gynhyrchu fel offeryn i ddatblygu'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Cyflwyniad)

Rhoddodd Jane Whitmore, y Comisiynydd Arweiniol Strategol, gyflwyniad mewn perthynas â sut y gellid defnyddio'r Strategaeth Cydgynhyrchu fel offeryn i ddatblygu'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc.

Amlinellodd:

- Nod y strategaeth a gynlluniwyd gan ein dinasyddion;
- Y cefndir;
- Y Daith i Wreiddio Cydgynhyrchu;
- Cynnwys plant a phobl ifanc;
- Beth yw ystyr cydgynhyrchu;
- Ei egwyddorion;
- Yr hyn nad yw'n gydgynhyrchu;
- Y gwahaniaeth rhwng cydgynhyrchu ac ymgynghori/cynnwys ac addysg;
- Sut y gall cydgynhyrchu weithio;
- Sut y gall cydgynhyrchu ddatblygu Strategaeth Gofalwyr Ifanc.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei chyflwyniad a dywedodd y dylai'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl fabwysiadu proses y Strategaeth Cydgynhyrchu ar gyfer ei holl eitemau cynllun gwaith yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

## 19 Cynllun Gwaith 2020-2021.

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2021.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Darparu diweddariad llafar ar y Strategaeth Gofalwyr Ifanc yn y ddau gyfarfod sy'n weddill o'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl ar gyfer 2020-2021;
2) Dylid ychwanegu "Datblygu Strategaeth Gwirfoddolwyr" at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 17 Mawrth 2021.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.12 pm

**Cadeirydd**